# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 17 Medi 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 226 (v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol")

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Gwella Sicrwydd Deiliadaeth

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynllun Gwên - 10 mlynedd o wella iechyd y geg plant yng Nghymru - Cyhoeddwyd fel datganiad ysgrifenedig

(0 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Goblygiadau Cylch Gwario 2019 Llywodraeth y DU i Gymru

(45 munud)

## 7 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Brexit

(30 munud)

## 8 Dadl: Tasglu'r Cymoedd

(60 munud)

NDM7129 - Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De o ran cefnogi datblygu economaidd ar draws y rhanbarth.

2. Yn nodi'r diweddariad ar Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De a gyhoeddwyd ar 18 Gorffennaf.

3. Yn croesawu'r saith maes blaenoriaeth, sydd wedi eu diweddaru, ac ehangiad cwmpas y Tasglu i gynnwys Cwm Gwendraeth a Dyffryn Aman.

4. Yn croesawu'r cynllun grant cartrefi gwag a gaiff ei gyflwyno i bob awdurdod lleol yn ardal y Tasglu yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi mai'r ffordd orau o wella bywydau a chymunedau'r rhai sy'n byw yn y Cymoedd yw drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth hirdymor o safon, grymuso pobl i gyflawni eu potensial a chymryd perchenogaeth yn eu cymunedau eu hunain.

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn gresynu nad oes gan gynllun cyflawni 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' ddigon o uchelgais i helpu i gefnogi cymunedau'r Cymoedd.

Tasglu'r Cymoedd: Yn cyflawni newid yng Nghymoedd De Cymru

**Gwelliant 3** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r cynnydd o 40 y cant yn nifer y cartrefi gwag yng Nghymru ers 2009 a'r angen am atebion cyllido a gorfodi i sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio unwaith eto er mwyn mynd i'r afael â'r problemau tai yn ardal y tasglu.

**Gwelliant 4** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth am y canlyniadau diriaethol disgwyliedig a chyflwyno cynllun manwl sy'n amlinellu manteision y tasglu fesul cwm, a chynnydd o ran cyflawni'r canlyniadau hynny.

**Gwelliant 5** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i lunio llinell gyllideb benodol ar gyfer tasglu'r Cymoedd a fydd yn cael ei chynnwys yng nghyllideb Llywodraeth Cymru sydd ar fin ymddangos.

**Gwelliant 6** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am sefydlu pwyllgor arbennig dros dro gyda chylch gwaith penodol i ddwyn y Gweinidog i gyfrif am waith Tasglu'r Cymoedd ac i aelodaeth y pwyllgor gynnwys Aelodau'r Cynulliad sy'n cynrychioli etholaethau'r cymoedd.

**Gwelliant 7** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cyfleoedd i wella Ein Cymoedd, Ein Dyfodol o ganlyniad i gyhoeddiadau cyllido gan Lywodraeth y DU a fydd yn darparu £600 miliwn yn ychwanegol yn 2019-2020 i grant bloc Cymru.

## 9 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

(60 munud)

**NDM7130** – Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Gosodwyd y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 25 Mawrth 2019;

Gosodwyd adroddiad Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 2 Awst 2019.

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 10 Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

(5 munud)

**NDM7131** – Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy’n deillio o’r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy’n codi o ganlyniad i’r Bil.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 18 Medi 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12/09/2019 i'w hateb ar 17/09/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**David Rees** *Aberafan*
OAQ54303

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019
Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynghylch dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*
OAQ54326

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019
A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn ddiweddar i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*
OAQ54294

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019
A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiogelwch ar yr M4 yn ardal Abertawe?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*
OAQ54347

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019
Pa gynlluniau wrth gefn ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud ar gyfer pobl Islwyn yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen 'Operation Yellowhammer'?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*
OAQ54316

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ynghylch lefelau nitrogen deuocsid ar hyd coridor yr A470 yng Nghanol De Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

OAQ54313

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am berfformiad y gwasanaethau a ddarperir gan Trafnidiaeth Cymru?

**Carwyn Jones** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

OAQ54350

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019

Pa gamau sydd ar waith i atal treth gyngor ychwanegol ar ail gartrefi rhag cael ei hosgoi?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

OAQ54351

**(w)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y penderfyniad i ddod a'r cynllun nofio am ddim presennol i ben?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

OAQ54339

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y bydd Brexit heb gytundeb yn ei chael ar brifysgolion Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OAQ54310

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i gefnogi cartrefi gofal yng ngogledd Cymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

OAQ54329

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ateb y galw am dai i'r dyfodol?

**Lynne Neagle** *Torfaen*
OAQ54352

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 12/09/2019
Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith Brexit heb gytundeb ar y trydydd sector yng Nghymru?

## Cwnsler Cyffredinol

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*
OAQ54312

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 10/09/2019
A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am gais diweddar Llywodraeth Cymru i'r Uchel Lys i ymyrryd mewn camau cyfreithiol yng nghyswllt addoediad?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*
OAQ54325

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 10/09/2019
Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'i gyd-aelodau Cabinet ynghylch datblygu cynigion deddfwriaethol i sicrhau gostyngiadau mewn allyriadau cerbydau?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*
OAQ54308

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 10/09/2019
A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymyrraeth Llywodraeth Cymru yn achos addoediad yr Uchel Lys, cyn apêl y Goruchaf Lys?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*
OAQ54307

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 10/09/2019
A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am y gost i'r trethdalwr yn sgil Llywodraeth Cymru'n ymuno â'r achos aflwyddiannus yn yr Uchel Lys mewn perthynas ag addoediad?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*
OAQ54314

**(e)**

Wedi'i gyflwyno ar 10/09/2019
Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru ar ddyfodol pwerau datganoledig yng Nghymru?